Your review of the Welsh Bacc Skills Challenge Certificate made recommendations for how the delivery and design of these qualifications could be improved. What progress have you made?

Since our Review we have established and met with a Welsh Bacc Design Group, whose role is to consider and develop proposals for changes to the Skills Challenge Certificate.

The Group includes representatives from CollegesWales, Estyn, the regional education consortia, Welsh Government and WJEC. Skills-based qualifications and assessment experts, commissioned to provide technical advice and guidance, also sit on the group.

Alongside the Design Group is the Welsh Bacc Practitioners' Group. This comprises teachers who deliver the Skills Challenge Certificate from a broad range of schools and colleges across Wales. They have a wealth of experience of the rewards and challenges of delivering the qualification and what it takes to engage students, inform parents and organise resources. This is the perfect forum to test the Design Group's proposals and to provide feedback to inform developments.

After testing several proposals with members of the Design and Practitioner Groups, we now have a preferred structure for the Key Stage 4 (KS4) Skills Challenge Certificate that we will be testing with stakeholders over the coming months[1].

There is still work to do before we consult on our proposals for changes to the Skills Challenge Certificate at KS4 early in the new year, but we are confident that there is a clear route to a successful outcome due to the many positive contributions made from everyone involved to date.

Who's taking these qualifications this summer?

The entry data shows that 28,030 students have been entered for the Key Stage 4 Skills Challenge Certificate which is a 0.9% increase compared to the 2018 entries. There are 11,995 entries for the Advanced Skills Challenge Certificate which is a 9.3% decrease compared to the 2018 entries.

There has been a decrease in the number of entries for the post-16 Skills Challenge Certificates compared with 2018. A total of 55 students have been entered for the Post-16 Skills Challenge Certificates; compared to 190 entries in 2018.

More information: www.qualificationswales.org E: enquiries@qualificationswales.org
T: 01633 373 222 @quals_wales

[1] https://www.qualificationswales.org/english/publications/review-of-the-skills-challenge-certificate---welsh-baccalaureate-report/

ARHOLIADAU 360°

Cipolwg manylach ar **Fagloriaeth Cymru**

Mae Bagloriaeth Cymru (Bac Cymru,) ar bob lefel yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol.



* Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol lefel 1 (Sylfaen) neu 2 (Cenedlaethol), a Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol lefel 1 neu 2 ar gyfer ôl-16.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau'n cynnwys pedair elfen ac mae'n gymhwyster arloesol sy'n asesu sgiliau ar gyfer astudiaeth bellach a chyflogaeth.

parhad...

Mae'r pedair elfen hon yn gyffredin i bob lefel ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd:

Tystysgrif Her Sgiliau	Pwrpas	Sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u hasesu
1. Prosiect unigol (50%)	Datblygu sgiliau trwy weithgaredd ymchwil	Llythrennedd Rhifedd Llythrennedd Digidol Meddwl critigol a datrys problemau Cynllunio a threfnu Creadigrwydd a mentergarwch Effeithiolrwydd personol
2. Her Mentergarwch a Chyflogadwyedd (20%)	Datblygu sgiliau mentergarwch a phriodoleddau i wella cyflogadwyedd	
3. Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion byd eang	
4. Her Gymunedol (15%)	Dynodi a chyfranogi mewn cyfleoedd cymunedol opportunities	

Mae gwaith myfyrwyr ar gyfer pob elfen o'r Dystysgrif Her Sgiliau'n cael eu marcio gan athrawon mewn ysgolion a cholegau ac wedi safoni mewnol, mae sampl o'r gwaith yn cael eu cymedroli gan CBAC.

Er mwyn ennill dyfarniad Bac Cymru, mae'n rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol. Mae Bac Cymru ar gael ar gyfer lefelau 1, 2 a 3 a graddir hwy yn llwyddo neu fethu.

Mae Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 yn gyfwerth o ran maint a gofynion i TGAU. Gall gael ei ddyfarnu fel cymhwyster hyd yn oed os nad yw myfyriwr yn cyflawni'r cymwysterau ategol gofynnol ar gyfer dyfarniad Bac Cymru.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn gyfwerth o ran maint a gofynion i Lefel A. Mae'n cael ei graddio yn yr un modd ac mae ganddi'r un pwyntiau tariff UCAS.

parhad...

Gwnaeth eich adolygiad o dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru argymhellion ar sut y dylai darpariaeth a chynllun y cymwysterau hyn gael eu gwella. Pa ddatblygiad sydd wedi cael ei wneud?

Ers ein Hadolygiad rydym wedi sefydlu ac wedi cwrdd â Grŵp Cynllunio Bagloriaeth Cymru a'i rôl hwy yw ystyried a datblygu argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Golegau Cymru, Estyn, y consortia addysg ranbarthol, Llywodraeth Cymru a CBAC. Mae arbenigwyr cymwysterau sgiliau ac asesu a gomisiynwyd i ddarparu cyngor technegol ac arweiniad hefyd yn rhan o'r grŵp .

Ar y cyd â'r Grŵp Cynllunio y mae Grŵp Ymarferwyr Bagloriaeth Cymru. Mae'r grŵp yn cynnwys athrawon sy'n darparu'r Dystysgrif Her Sgiliau o amrywiaeth eang o ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Mae ganddynt gyfoeth o brofiad o fanteision a heriau darparu'r cymhwyster a'r hyn sydd ei angen er mwyn ymgysylltu myfyrwyr, hysbysu rhieni a threfnu adnoddau. Mae'n fforwm perffaith er mwyn profi argymhellion y Grŵp Cynllunio a darparu adborth er mwyn hysbysu datblygiadau.

Wedi profi nifer o argymhellion ag aelodau o'r Grwpiau Cynllunio ac Ymarferwyr, mae gennym yn awr, strwythur a ffafrir ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 (CA4) y byddwn yn ei brofi â rhanddeiliaid yn ystod y misoedd nesaf[1].

Mae gwaith i'w wneud o hyd cyn i ni ymgynghori ar ein hargymhellion ar gyfer newidiadau i Dystysgrif Her Sgiliau CA4 yn gynnar yn y flwyddyn newydd ond rydym yn hyderus y bydd y ffordd yn glir ar gyfer deilliant llwyddiannus a hynny yn sgil nifer o gyfraniadau cadarnhaol gan bawb, hyd yn hyn.

Pwy fydd yn ymgeisio am y cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae'r data mynediad yn dangos fod 28,030 o fyfyrwyr wedi ymgofrestru ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 sy'n gynnydd o 0.9% o'i gymharu â'r niferoedd yn 2018. Mae 11,995 wedi ymgofrestru ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch sy'n ostyngiad o 9.3% o'i gymharu â 2018.

Mae gostyngiad wedi bod yn y niferoedd sydd wedi ymgofrestru ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau wedi 16 oed o'i gymharu â 2018. Mae cyfanswm o 55 o fyfyrwyr wedi ymgofrestru ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau wedi 16 oed; o'i gymharu â 190 yn 2018.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym

[1]https://www.qualificationswales.org/english/publications/review-of-the-skills-challenge-certificate---welsh-baccalaureate-report/